

# SL(6)097 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion ar gyfer archebu a chymryd profion coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer pob teithiwr sydd wedi'i frechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch'.
- Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch' hunan-ynysu rhag cyrraedd nes eu bod yn cael canlyniad negyddol o'u prawf PCR diwrnod 2.

Effaith y newidiadau hyn yw bod angen i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n dod o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch' hunan-ynysu nes eu bod wedi cymryd prawf PCR diwrnod 2 a chael canlyniad negyddol. Os cânt ganlyniad positif, bydd angen iddynt barhau i hunan-ynysu am gyfnod o 10 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod y cymerwyd y prawf PCR.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:



## **1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 6HB(3) yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Mae'r fersiwn Saesneg o reoliad newydd 6HB(3) yn cyfeirio at ynysu am 10 diwrnod, ond mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at ynysu am 14 diwrnod.

Felly, nid yw'n eglur am ba hyd y mae'n rhaid i berson ynysu o dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 6HB. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru unioni ac egluro'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

### **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Tachwedd 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol:

*"Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:*

- Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn.*
- Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn hunan-ynysu o'r adeg y maent yn cyrraedd nes iddynt gael canlyniad negyddol i'w prawf diwrnod 2.*

*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

#### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



*“Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.”*

### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*“Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.”*

### **4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.”*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

### **2 Rhagfyr 2021**

